Gordaliadau credydau treth

Mae Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant yn lwfansau a roddir ar sail modd a chânt eu talu gan Gyllid a Thollau EM (HMRC). Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthych yr hyn allwch wneud os yw HMRC yn dweud wrthych eu bod wedi rhoi gormod o gredyd treth i chi a bod yn rhaid i chi ei dalu yn ôl. Mae'n bosib y byddai cael cymorth gan gynghorydd profiadol yn gynorthwyol, er enghraifft mewn Canolfan Cyngor ar Bopeth (gweler Cymorth Ychwanegol am fwy o fanylion).

Sut gall gordaliad ddigwydd

Gordaliadau ar gyfer y flwyddyn dreth flaenorol

Caiff credydau treth eu cyfrifo bob blwyddyn, yn unol â'r flwyddyn dreth (Ebrill 6ed – Ebrill 5ed). Fel arfer, mae eich credyd treth yn y lle cyntaf yn seiliedig ar eich incwm o'r flwyddyn dreth flaenorol. Ar ddiwedd y flwyddyn, pan fod yr holl wybodaeth am eich incwm a'ch amgylchiadau ar gael, bydd HMRC yn cymharu eich hawl gyda faint y maen nhw wedi eich talu chi. Os yw HMRC yn credu eu bod wedi rhoi mwy na'ch hawl i chi, gelwir hyn yn ordaliad, ac mae disgwyl i chi ei ad-dalu – er mae'n bosib na fydd yn rhaid i chi ei dalu i gyd yn ôl.

Mae'r rhesymau pam y gallai HMRC ddarganfod, ar ddiwedd y flwyddyn, eich bod wedi derbyn gormod o gredyd treth yn cynnwys:

- eich bod wedi oedi cyn dweud wrthynt am newid yn eich amgylchiadau
- roedd HMRC wedi oedi cyn cofnodi'r newid yn eich amgylchiadau
- roedd eich incwm £10,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Gordaliadau ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol

Gallai'r HMRC hefyd benderfynu newid eich hawl i gredyd treth yn ystod y flwyddyn dreth os ydynt yn darganfod eich bod wedi derbyn gormod. Gallai hyn fod oherwydd newid yn eich amgylchiadau neu incwm.

Gofyn i HMRC i esbonio'r gordaliad

Os gofynnir i chi dalu'r credydau treth yn ôl, dylech gysylltu â Llinell gymorth Credydau Treth (gweler Cymorth Ychwanegol am fanylion) a gofynnwch am esboniad ynghylch sut y digwyddodd y gordaliad. Cadwch gofnod o'ch galwad ffôn, gan gynnwys dyddiad ac amser yr alwad.

Gordaliadau oherwydd yr ydych chi a'ch partner wedi gwahanu neu rydych wedi dechrau byw gyda phartner newydd

Os ydych wedi derbyn gordaliad oherwydd yr ydych chi a'ch partner wedi gwahanu neu rydych wedi dechrau byw gyda phartner newydd ac ni hysbysoch yr HMRC am y newid hwn ar unwaith, mae'n bosib bydd eich gordaliad yn cael ei leihau neu ei ddileu. Mae hyn oherwydd bydd HMRC yn cyfrifo faint y byddech wedi cael eich talu os wnaethoch riportio'r newid ar amser a byddant yn gosod y gordaliad yn erbyn y swm hwn. Mae'r HMRC yn galw hyn yn **atredeg tybiannol.** Dylech wirio hyn os yw'n berthnasol i chi.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Beth os ydych yn anghytuno â phenderfyniad yr HMRC i adennill y gordaliad?

Os nad ydych yn cytuno ag esboniad y llinell gymorth ynglŷn â'r gordaliad, gallwch ofyn i'r HMRC i ailedrych ar y penderfyniad. Gelwir hyn yn **herio** gordaliad. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig neu drwy lenwi ffurflen TC846 a gewch drwy ffonio'r HMRC ar **0345 300 3900.**

Mae'n bosib y byddai atodi llythyr ar wahân i'r ffurflen yn gynorthwyol. Dylech roi'r holl wybodaeth, gan gynnwys yn union beth wnaethoch a pham na ddylech orfod ad-dalu'r credydau treth. Sicrhewch eich bod yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o gamgymeriadau a wnaed gan yr HMRC, er enghraifft, copïau o unrhyw ohebiaeth a'r ffurflen gais.
Dylech hefyd geisio cynnwys manylion o ran y dyddiadau a'r amserau a ffonioch y Llinell Gymorth Credyd Treth, rhag ofn bod rhaid i'r HMRC wirio pa gyngor a gawsoch. Dychwelwch y ffurflen ac unrhyw wybodaeth ychwanegol at y Swyddfa Credyd Treth (gweler Cymorth Ychwanegol am y cyfeiriad).

Ni fydd yr HMRC yn casglu'r gordaliad pan ydynt yn ystyried p'un ai bod rhaid i chi ei ad-dalu neu beidio. Pan ydych yn herio adennill gordaliad, bydd HMRC yn gwirio p'un ai eu bod wedi cyflawni eu holl gyfrifoldebau tuag atoch chi a ph'un ai eich bod chi wedi cyflawni eich cyfrifoldebau chi. Byddant yna yn ceisio gwneud penderfyniad ynglŷn ag ad-dalu'r gordaliad. Mae cyfrifoldebau'r HMRC yn cynnwys:

- cofnodi unrhyw wybodaeth a roddoch yn gywir pan wnaethoch gyflwyno neu adnewyddu eich cais
- cofnodi unrhyw wybodaeth a roddoch yn gywir pan wnaethoch ei hysbysu o newid yn eich amgylchiadau a gweithredu ar y newid hwn o fewn 30 diwrnod
- cyfrifo eich hawl a'i dalu'n gywir
- cynnwys y wybodaeth gywir ar eich hysbysiad dyfarniad
- rhoi cyngor cywir i chi pan ydych yn cysylltu â nhw.

Mae eich cyfrifoldebau chi yn cynnwys:

- rhoi gwybodaeth gywir i'r HMRC pan wnaethoch hawlio credydau treth
- rhoi gwybod o unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau o fewn y terfyn amser sydd ar y rhestr wirio a ddaw gyda'ch hysbysiad dyfarniad
- rhoi gwybod o unrhyw wallau yn eich hysbysiad dyfarniad o fewn 30 diwrnod o'i dderbyn
- gwirio bod eich taliadau'r un peth â'r symiau sydd wedi'u nodi ar yr hysbysiad dyfarniad a riportio unrhyw wallau.

Os yw'r HMRC wedi cyflawni ei gyfrifoldebau **i gyd** ond nid ydych chi wedi cyflawni eich rhai chi, fel arfer bydd gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad i gyd.

Os ydych wedi cyflawni eich cyfrifoldebau **i gyd** ond nid yw hyn yn wir am yr HMRC, ni fydd gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad i gyd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych chi a'r HMRC wedi cyflawni eich holl gyfrifoldebau, mae'n bosib y bydd yr HMRC yn dileu rhan o'r gordaliad ond bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Dylai'r HMRC anfon eu penderfyniad, ynghyd â'r rhesymau, atoch yn ysgrifenedig.

Os ydych dal yn anfodlon gyda phenderfyniad yr HMRC, gallwch ofyn iddynt ei ailystyried dim ond os:

- oes gennych wybodaeth **newydd** nad oedd yn ymwybodol iddynt ynghynt, neu
- os ydych yn teimlo nad ydynt wedi ystyried y wybodaeth a roddoch iddynt ynghynt.

Os yw un o'r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol i chi, ysgrifennwch at yr HMRC cyn gynted â phosibl.

Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth newydd a'ch bod dal yn anhapus gyda'r penderfyniad, dylech gael cyngor ynglŷn â'ch opsiynau. Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl oherwydd y terfynau amser llym sydd ynghlwm wrth gymryd camau pellach. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn gynnwys mynd i'r llys.

Apelio yn erbyn eich hawl i gredyd treth

Nid oes hawl gennych i apelio yn erbyn penderfyniad i adennill gordaliad credydau treth. Fodd bynnag, mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn **swm** y gordaliad. Gallwch hefyd apelio yn erbyn taliad cosb y mae'n rhaid i chi ei dalu sy'n gysylltiedig â'ch hawl i gredydau treth. Bydd yr hysbysiad dyfarniad fydd HMRC yn ei anfon atoch hefyd yn nodi p'un ai bod gennych yr hawl i apelio neu beidio.

Mae gennych 30 diwrnod o'r dyddiad sydd ar y dyfarniad hysbysiad i apelio. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y byddwch yn gallu apelio wedi hynny. Mae'n rhaid i chi apelio i'r Swyddfa Credyd Treth (gweler Cymorth Ychwanegol am fanylion).

Problemau gydag ad-dalu eich gordaliad

Os gofynnwyd i chi ad-dalu'r cyfandaliad ar ôl i'ch hawl i gredydau treth ddod i ben, ffoniwch yr HMRC ar 0845 302 1429 a gofynnwch am fwy o amser i dalu'r arian yn ôl.

Os ydych yn ei chael yn anodd ad-dalu'r gordaliad, gallwch ofyn i'r HMRC am fwy o amser i'w dalu yn ôl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r HMRC ddileu'r gordaliad i gyd neu ran ohono os fyddai ei ad-dalu yn achosi anhawster i chi neu'ch teulu, er enghraifft, os na allwch dalu costau byw hanfodol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwneud cwyn

Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbynioch, gallwch geisio datrys y broblem yn anffurfiol gyda rhywun yn y swyddfa a ddeliodd â'ch cais. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, gallwch gwyno i'r Rheolwr Cwynion yn yr un swyddfa. Os ydych dal i fod yn anfodlon, gallwch ofyn iddynt ail-edrych ar y penderfyniad.
Os nad ydych yn cael ymateb boddhaol i'ch cwyn, gallwch ofyn i'r **Beirniad** ei archwilio. Mae yna derfynau amser llym. Mae manylion cyswllt y Beirniad fel y ganlyn:

Rhif ffôn: 0300 057 1111
E-bost: adjudicators@gtnet.gov.uk
Gwefan: www.adjudicatorsoffice.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon â gwasanaeth yr HMRC neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, gallwch ofyn i'ch AS i gyfeirio eich achos i'r **Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd** (gweler isod). Mae yna derfynau amser llym. Fel arfer mae'n rhaid i chi gwyno i'r Beirniad cyn cwyno i'r Ombwdsmon.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Llinell gymorth Credydau Treth
Rhif ffôn: 0345 300 3900
Ffôn testun: 0345 300 3900
Siaradwyr Cymraeg: 0845 302 1489

Swyddfa Credyd Treth
Preston
PR1 0SB
Rhif ffôn: 0151 966 1151

Advicenow.org.uk (Lloegr a Chymru yn unig)

Mae yna ganllaw defnyddio ar ordaliadau credyd treth ar wefan Cyngor ar Bopeth o'r enw gordaliadau Credyd Treth. Ewch at: www.advicenow.org.uk

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credyd treth plant a chredyd treth gwaith
- Sut i ddefnyddio ombwdsmon

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.
Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr